CAIR Reach

CAIR

Technoleg Glyfar, Gwnaethpwyd i Ofalu



Canllaw Rhaglennu V 1.0

Reach

Llinyn Tynnu Radio

Mae'r Reach yn llinyn tynnu diddos, diwifr, hawdd i gydio gyda chordyn hir ar gyfer tu fewn ag allan.

Yn ddelfrydol i ystafell gwely, ystafell ymolchi neu lolfa, mae'n bosib gosod y Reach yn strategol o gwmpas y cartref i roi diogelwch a sicrwydd meddwl ychwanegol os fydd yna argyfwng, yn enwedig i ddefnyddwyr sydd yn ffeindio fo'n anodd pwyso botwm, neu i ardaloedd ble mae'n anodd gwisgo larwm personol.

Canllaw Rhaglennu V 1.0

Gosod y Reach

1. Casglwch y gosodiadau a thynnu'r plât wyneb wrth defnyddio'r tab.
2. Wrth ddefnyddio'r bocs sydd wedi eu printio fel patrymlun, marciwch y nenfwd/wal le fydd y 2 sgriw mowntio yn ffitio a driliwch 2 twll. Sicrhewch i leoli joist os yr ydych yn mowntio i'r nenfwd.
3. Wrth ddefnyddio'r gosodiadau, atodwch y Reach i'r nenfwd/wal, yn sicrhau eu bod yn ddiogel, a gosod yr handlen i'r cysylltwr cord.
4. Ffitio'r llinyn handlen i'r cysylltydd llinyn. Pasiwch y llinyn trwy'r twll gwag yn y cysylltydd, addaswch fel bod yr handlen isaf yn 100mm o'r llawr, clymu cwlwm uwchben y cysylltydd a thorri i ffwrdd unrhyw linyn gormodol ar y brig ar ôl ei glymu.
5. Rhowch y plât wyneb yn ôl ymlaen, a phrofi'r uned trwy dynnu'r cordyn, mi ddylai'r dangosydd LED goleuo.

Cysylltu'r Reach i'r Notifier neu system dderbyn arall

1. Paratowch y Notifier/system arall drwy fynd i mewn i fodd cofrestru.
2. Actifadu'r Reach drwy dynnu'r cordyn, mi ddylai'r LED goleuo
3. Mi ddylai'r Notifier/system arall cydnabod y ddyfais newydd.

Newid y batris ar y Reach

1. Tynnu i ffwrdd y plât wyneb
2. Dadsgriwio'r 2 sgriw gosod a thynnu oddi ar y nenfwd/wal
3. Dadsgriwio'r 4 sgriw cornel
4. Tynnu i ffwrdd y casin ffrynt - byddwch yn ofalus i dynnu ar wahân, mae'n bosib fydd y casin ffrynt yn anodd ei ddileu, mae hyn yn sicrhau eu bod yn ddiddos.
5. Tynnwch allan y batris a newid am rhai newydd, unrhyw ffordd o gwmpas.
6. Ailgynnull y ddyfais, ailosod a phrofi'r ddyfais.



Pacio

Mi ddylai offer sy'n cynnwys celloedd neu fatris cael ei phacio mewn pecyn cryf, anhyblyg a rhoi yn i le yn ofalus i sicrhau dim symudiad o fewn y pecyn i osgoi actifadu damweiniol. Rhaid i enw a chyfeiriad yr anfonwr fod yn weladwy yn glir ar y pecyn allanol.

Diogelwch

Peidiwch â datgymalu na newid yr uned. Peidiwch ag agor y casin, heb law i newid y batri.

Datganiad Cydymffurfiaeth:

Trwy hyn, mae Cair (UK) Ltd yn datgan bod y math o offer radio, Cair Reach yn cydymffurfio â Chyfarwyddeb 2014/53/EU

Gwardeu

Dylid cael gwared ar yr holl wastraff electronig yn unol â'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf. Rhaid ei waredu o fewn y llif gwastraff trydanol ac electronig a pheidio â chael gwared arno yn y llif gwastraff arferol. Mae ailgylchu cynhyrchion gwastraff trydanol yn helpu i warchod adnoddau naturiol ac atal effeithiau andwyol ar yr amgylchedd. Cysylltwch â'ch cyflenwr os bydd angen mwy o wybodaeth arnoch.

UK CA

CAIR

Cair (UK)
Hanson Lane, Halifax, West Yorkshire, HX1 4SD
T: 01422 399 155 **E**: sales@we-cair.com **W**: www.we-cair.com